



Mae Brechu yn achub bywydau  
Vaccination saves lives



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Rhaglen frechu un dos rhag brech yr ieir ar gyfer plant cymwys

Mae'r daflen hon ar gyfer rhieni a gofalmwyr plant a aned rhwng **1 Ionawr 2020 a 31 Awst 2022**.

Mae'r plant hyn yn cael cynnig **un dos** o'r brechlyn **MMRV**, i helpu i'w hamddiffyn rhag brech yr ieir.

Mae haint brech yr ieir fel arfer yn ysgafn ond gall weithiau achosi problemau iechyd difrifol.

**Brech yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn rhag salwch difrifol.**



Sgania fi am ragor  
o wybodaeth ar  
MMRV

**SKU IMM266**

pennau, rwbela a **brech yr ieir (farisela)**. Dylai eich plentyn fod wedi cael dau ddos o'r brechlyn MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) pan oedd yn iau. Nid yw'r brechlyn MMR yn helpu i amddiffyn rhag brech yr ieir.

## Pa frechiad sy'n Cael gynnig i fy mhlentyn?

Mae eich plentyn yn cael cynnig un dos o'r brechlyn **MMRV**.

Mae'r brechlyn MMRV Yn helpu i amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r

**Nid oes angen i'ch plentyn gael y brechlyn os yw:**

- wedi cael brech yr ieir o'r blaen, neu
- os yw eisoes wedi cael **dau** ddos o frechlyn brech yr ieir.

Os yw eich plentyn eisoes wedi cael brech yr ieir, neu wedi cael dau ddos o frechlyn brech yr ieir, mae'n debygol y bydd wedi'i amddiffyn rhag brech yr ieir. Nid oes angen brechlyn arall arno fel rhan o'r rhaglen hon. Fodd bynnag, mae dal yn ddiogel i'ch plentyn gael y brechlyn MMRV. Os ydych chi'n ansicr, mae'n well i'ch plentyn gael y brechlyn.

## Pryd gall fy mhlentyn gael y brechlyn?

Dylai eich practis meddyg teulu gysylltu â chi yn ystod y cyfnod hwn i drefnu bod eich plentyn yn cael y brechiad. Gallai hyn fod drwy lythyr, neges destun, galwad ffôn neu e-bost. Mae'r cynnig hwn ar gael tan fis Mawrth 2028.



## Beth yw brech yr ieir?

Mae brech yr ieir (a elwir hefyd yn feirws varicella zoster) yn lledaenu'n hawdd iawn. Mae'n gyffredin iawn yn y DU ac yn effeithio ar blant yn bennaf, ond gall unrhyw un ei ddal.

Mae brech yr ieir yn salwch ysgafn i'r rhan fwyaf o

blant ac mae'n gwella ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, i rai plant, gall fod yn ddifrifol iawn. Mae'r risg o salwch difrifol o ganlyniad i frech yr ieir yn llawer uwch nag yr oedd pobl yn arfer ei feddwl. Efallai y bydd angen triniaeth yn yr ysbyty ar rai pobl os cânt broblemau oherwydd yr haint.



Gall dal haint brech yr ieir arwain at salwch difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Heintiau croen bacteriol difrifol
- Problemau ysgyfaint (fel niwmonia)
- Ffitiau (trawiadau)
- Chwyddo yn yr ymennydd (enseffalitis)
- Strôc mewn plant

Mae symptomau brech yr ieir yn cynnwys brech o smotiau coch, coslyd sy'n troi'n bothelli llawn hylif. Yna bydd y pothelli'n cramennu i ffurfio crach a fydd yn disgyn i ffwrdd yn y pen draw. Efallai y bydd gan eich plentyn rai symptomau ysgafn tebyg i'r fflw cyn i'r frech ymddangos.

Ar ôl i'ch plentyn gael brech yr ieir, mae'n annhebygol y bydd yn dal yr haint eto. Fodd bynnag, gall y feirws aros yn ei nerfau a gallai achosi salwch gyda brech boenus pan fydd yn hŷn. Yr eryr yw enw'r salwch hwn. Mae'n waeth mewn pobl hŷn ac mewn pobl â systemau imiwnedd gwan.

## A fydd un dos o'r brechlyn MMRV yn amddiffyn fy mhlentyn rhag brech yr ieir?

Mae un dos o'r brechlyn MMRV yn fwy na 90% yn

effeithiol wrth amddiffyn rhag haint brech yr ieir. Mae tua 99% yn effeithiol wrth amddiffyn rhag haint brech yr ieir difrifol.

## A yw'n ddiogel i fy mhlentyn gael brechlyn MMRV os yw eisoes wedi cael dau frechlyn MMR?

Ydy. Mae'n ddiogel cael tri brechlyn sy'n cynnwys MMR.

Mae'r brechlyn MMRV wedi cael ei ddefnyddio'n ddiogel mewn gwledydd eraill ers blyneddau lawer.

## A ddylai unrhyw un beidio â chael y brechlyn MMRV?

Prin iawn yw'r plant na allant gael brechiad MMRV. Ni ddylai eich plentyn gael y brechlyn MMRV os yw wedi cael adwaith difrifol (sy'n peryglu bywyd) i'r canlynol:

- dos blaenorol o'r un brechlyn, neu
- unrhyw gynhwysyn yn y brechlyn.

Ni ddylai eich plentyn gael y brechlyn MMRV os oes ganddo system imiwnedd wan. Mae hyn oherwydd bod y brechlyn MMRV yn cynnwys feirysau byw, gwanedig.

Dywedwch wrth yr unigolyn sy'n rhoi'r brechlyn i chi os yw unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i'ch plentyn.



## Pa frechlyn fydd fy mhlentyn yn ei gael?

Y brechlynnau MMRV a ddefnyddir yng Nghymru yw ProQuad a Priorix Tetra.

Os yw'n bwysig i chi nad yw'r brechlyn yn cynnwys gelatin moch, siaradwch â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhoi'r brechlyn. Nid yw Priorix Tetra yn cynnwys gelatin moch. I gael rhagor o wybodaeth am gelatin moch, ewch i [icc.gig.cymru/GelatinPorc](http://icc.gig.cymru/GelatinPorc)

Bydd card cofnod yn cael ei roi i chi i gofnodi eich brechlyn MMRV. Neu gallwch ddefnyddio'r tabl isod:

| Brechlyn MMRV | Dyddiad a roddwyd |
|---------------|-------------------|
|               |                   |

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i [icc.gig.cymru/brechlynnau](http://icc.gig.cymru/brechlynnau)

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau, neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, gallwch fynd i [111.wales.nhs.uk](http://111.wales.nhs.uk) (safle allanol). Gallwch hefyd siarad â'ch meddyg neu nyrs neu gysylltu â GIG 111 Cymru drwy ffonio **111**.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am y brechlynnau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru yn [icc.gig.cymru/brechlynnau](http://icc.gig.cymru/brechlynnau)

I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, ei gynnwys a'r sgil-efeithiau posibl, ewch i [medicines.org.uk/emc](http://medicines.org.uk/emc) (safle allanol, Saesneg yn unig). Bydd angen i chi nodi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio. Gallwch chi hefyd weld y daflen i gleifion ar-lein.

Gallwch chi ddod o hyd i enw'r brechlyn yn [icc.gig.cymru/MMRV-MMR](http://icc.gig.cymru/MMRV-MMR)

Dylech chi roi gwybod am sgil-efeithiau a amheuir ar-lein yn [www.mhra.gov.uk/yellowcard](http://www.mhra.gov.uk/yellowcard) (safle allanol, Saesneg yn unig). Gallwch hefyd lawrlwytho ap y Cerdyn Melyn, neu ffonio **0800 731 6789** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9yb i 5hym).

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i [111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth](http://111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth) (safle allanol).



Sganiwch fi i fynd i  
wefan Iechyd  
Cyhoeddus Cymru

Fersiwn 1 | Tachwedd 2026

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw asiantaeth iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar gyfer pobl Cymru.

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydabyddiaeth I Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)

ISBN 978-1-83766-968-4